

# Llechi

Dyddodwyd llechi Eryri yn wreiddiol rhwng 550 a 450 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Yna cafodd ei gynhesu, ei wasgu a'i blygu gan rymoedd daearegol. Yn sgil y broses hon trawsnewidiwyd y garreg laid yn siâl (carreg galed wedi'i chywasgu). Un o nodweddion llechi yw eu bod yn hollti'n hawdd i greu deunydd toi, ac y maent yn adnabyddus iawn

am hyn. Gall llechen naturiol hefyd wrthsefyll amodau tywydd ac amgylcheddol eithafol. Mae llechi Sir Gaernarfon o Nant Ogwen yn biws neu'n wyrdd a chânt eu cydnabod yn eang fel y llechi gorau yn y byd. Bydd Stori Lôn Ogwen – taith y llechen – yn dilyn taith y llechi o Chwarel y Penrhyn i Borth Penrhyn a thu hwnt. Ac wrth reswm, yn sgil y llechi, cawn hefyd hanesion chwarelwyr Cymru.



Llechi to Chwarel y Penrhyn



Lliwiau llechi Chwarel y Penrhyn

## Gwreiddiau gwaith llechi

Gellir olrhain defnyddio llechi fel deunydd adeiladu i gyfnod y Rhufeiniaid ac fe'u defnyddiwyd yng nghaer Rufeinig Segontium, Caernarfon. Yn ddiweddarach, yn y canol oesoedd, defnyddiwyd llechi o Bethesda ar do Cadeirlan Llanelwy. Fodd bynnag, roedd y gost o gludo llechi ar ffyrdd gwael Sir Gaernarfon yn golygu mai dim ond ar raddfa fychan iawn y'u defnyddiwyd.

## TAITH Y LLECHEN

Dilynwch Daith y Llechen ar hyd llwybr Lôn Las Ogwen lle ceir amryw o baneli gwybodaeth sy'n adrodd stori unigryw llechi Ogwen, Chwarel y Penrhyn a'r bobl fu'n rhan o'r diwydiant llechi.